



1. Mae dau berson yn sefyll ar ymyl y platfform yn aros am eu trê. Mae un yn tynnu ei docyn allan i edrych arno, mae trê yn mynd heibio ar yr ochr arall ac mae'r tocyn yn chwythu allan o'i law ac ar y trac. Nid yw'r trê i fod i gyrraedd am bum munud arall, mae'r tocyn yn llythrennol yno ac nid oes unrhyw staff o gwmpas.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**

2. Mae dau ffrind ar eu beiciau yn rhuthro i gyrraedd yr ysgol. Mae'n bwrw glaw ac maen nhw'n hwyr. Wrth iddyn nhw agosáu at groesfan wastad mae'r goleuadau'n dechrau fflachio ac mae'r larwm yn seinio, ond nid yw'r gatiâu'n dod i lawr eto. Os cânt eu trapio y tu ôl i'r rhwystr, byddant yn sicr yn hwyr i'r ysgol. Mae'r ffrind o'i flaen yn cyflymu ac yn croesi'r groesfan. Nid yw'r ffrind arall yn mynd mor gyflym ond mae'r cyntaf yn gweiddi 'Tyrd ymlaen, galli di groesi'n hawdd mewn pryd!'

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**

3. Mae'n wythnos olaf gwyliau'r haf, mae'n boeth ac mae pawb wedi diflasu. Mae grŵp o ffrindiau yn mynd allan am dro ac yn cael eu hunain yn cerdded wrth ochr iard nwyddau. Nid yw'r ffens mor uchel â hynny felly maen nhw'n dringo drosodd i gael golwg o gwmpas. Mae un ohonynt yn awgrymu eu bod i gyd yn dringo ar ben to trê i dorheulo - nid yw'r trenau'n cael eu defnyddio ac ni fyddai'r plant yn gwneud unrhyw niwed pe byddent yn gorwedd yno yn unig.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**



4. / Mae croesfan wastad gerllaw heb rwystrau. Mae rhywun yn rhedeg ar ei thraws ac mae'n gollwng ei ffôn symudol ar y trac ond ddim yn sylweddoli nes ei fod wedi croesi ac yn edrych yn ôl. Mae'n gallu gweld trê'n ond mae'n edrych fel petai gryn bellter i ffwrdd o hyd. Mae'r ffrind gydag ef yn dweud wrtho am ei adael ond mae'n ffôn drud iawn.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro**?

5. / Mae dau ffrind yn cyrraedd gorsaf gyda'i gilydd ond maen nhw'n mynd i ddal gwahanol drenau ar blatfformau cyferbyn. Wrth iddynt aros am eu trenau maent yn chwifio ar ei gilydd, pan sylweddolodd un fod gan yr un arall allwedd y drws yr oedd yn gofalu amdano yn ei boced. Nid oes amser i redeg i lawr y platfform, i fyny'r grisiau a thros y bont, ond dim ond ychydig fetrau i ffwrdd ar draws y trac mae'r platfform gyferbyn. Mae'r unigolyn sydd â'r allwedd yn dweud 'Wnawn ni sleifio ar draws - mi wna i gyfarfod â thi yn y canol'.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro**?

6. / Mae grŵp o ffrindiau yn pwyso dros bont reilffordd. Mae un yn awgrymu taflu sbwriel ar y trac i weld beth allan nhw ei daro. Mae pentwr o frics adeiladu a metel gerllaw ac mae rhywun yn awgrymu taflu rhywfaint o hynny i lawr.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud **penderfyniad** Effro?



7. / Mae dau ffrind yn cerdded adref gyda'r nos. Mae'n hwyr ac mae eisiau cyrraedd adre'n gyflym arnyn nhw. Mae llwybr byr ar hyd ochr y rheilffordd - nid yw'n bell iawn ar hyd y trac ond bydd yn arbed tua hanner awr iddynt gerdded y ffordd bell o gwmpas. Mae ganddyn nhw fflachlampau ar eu ffonau felly byddan nhw'n gallu gweld i ble maen nhw'n mynd.

Beth ddylen nhw ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**

8. / Mae rhywun yn mynd â'i gi am dro. Mae'r ci yn gweld cwningen ac yn dechrau rhedeg ar ei ôl, gan beri i'r perchennog gollu gafael ar y tennyn. Mae'n mynd o dan ffens ac ymlaen i arglawdd y rheilffordd. Mae'r twll yn y ffens yn ddigon mawr i unigolyn fynd drwyddo - mae'r ci wedi drysu ac fe allai redeg ymlaen i'r trac.

Beth ddylai ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**

9. / Mae'n rhaid i rywun ar y ffordd i'r gwaith stopio ar groesfan wastad gan fod y rhwystrau i lawr a'r larwm yn seinio. Mae'n aros am ychydig funudau ac mae trê'n mynd heibio. Bum munud yn ddiweddarach mae'r rhwystrau yn dal i fod i lawr ond nid oes unrhyw drê'n wedi mynd heibio. Mae ciw hir o geir y tu ôl ac mae rhai yn canu eu cyrn. Dim ond un rhwystr sydd ar ochr y gyrrwr felly gallai yrru o'i gwmpas.

Beth ddylai ei wneud?

A allwch chi helpu i wneud penderfyniad **Effro?**